

United Welsh Housing Association Cyf

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Iaith Gymraeg wedi ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a'r Cod Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.

Cafodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) o'r Ddeddf y 08/07/08

Manylion Cysylltu

Enw:	Greg England, Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
Sefydliad:	United Welsh Housing Association Cyf.
Cyfeiriad:	Tŷ Cennydd, Heol y Castell, Caerffili, CF83 1NZ
Ffôn:	029 2085 8185
Ffacs:	029 2085 8110
E- bost:	gengland@uwha.co.uk

Datganiad Agoriadol

1.0 Nod y Cynllun

Mae Cymdeithas Tai Unedig Cymru (*United Welsh*) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth weithredu busnes cyhoeddus yng Nghymru, cyn belled ag y bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol o ymarferol, yn ymdrin yn gyfartal â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r modd y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.1 Amcanion:

- rhoi modd i bawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sy'n trafod gyda *United Welsh* wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn
- sicrhau bod gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn wasanaethau o ansawdd da

1.2 Mae *United Welsh* yn cydnabod bod aelodau'r cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae'n cydnabod hefyd bod rhoi modd i'r cyhoedd ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn arfer da yn hytrach na goddefiad, ac y gallai gwrthod eu hawl i ddefnyddio'u dewis iaith fod yn anfantais iddynt. Bydd *United Welsh* felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis yr iaith sydd i'w defnyddio yn eu trafodion gyda hwy, yn unol â'r egwyddor uchod.

1.3 Mae'r galw am wasanaethau dwyieithog yn cynyddu ledled Cymru. Er bod *United Welsh* yn gweithio ar hyn o bryd mewn ardaloedd lle nad oes llawer o alw, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau yn barod i ddiwallu anghenion cwsmeriaid sy'n dymuno ymwneud â ni yn Gymraeg.

1.4 Eisoed mae *United Welsh* wedi darganfod y galw sydd ar hyn o bryd am Gymraeg trwy ymgynghori â'u cwsmeriaid i gyd. Rydym wedi cadarnhau mai cymharol fach yw'r galw yn yr ardaloedd lle'r ydym yn gweithio. Bydd ymgynghori rheolaidd yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn addasu ar gyfer unrhyw newidiadau a fydd yn y galw am Gymraeg yn y dyfodol.

1.5 Rydym yn parchu hawl ein cwsmeriaid i gyfathrebu gyda ni yn yr iaith y maent yn ei dewis. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau y bydd tenantiaid sydd wedi mynegi eu bod yn dymuno ymwneud â ni yn Gymraeg yn derbyn eu gwasanaethau yn Gymraeg.

2.0 Ynghylch *United Welsh*

Mae *United Welsh* yn sefydliad dielw sy'n darparu tai a gwasanaethau cysylltiedig i bobl yn Ne Cymru. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gartrefi yn cynnwys tai ar gyfer teuluoedd, fflatiau a byngalos ar draws ardal eang, ac yn gweithio gydag 11 o awdurdodau lleol.

2.1 Ein Gweledigaeth

Bod y sefydliad sy'n ddewis cyntaf ...

2.2 Adeiladu cartrefi da y mae pobl yn gallu fforddio eu rhentu neu eu prynu

Rydym yn rhentu ein cartrefi trwy ddefnyddio ein system osod seiliedig ar ddewis o'r enw Dewis Cartref. Mae wedi ei llunio i sicrhau bod modd i bobl benderfynu lle maent yn dymuno byw tra mae'r flaenoriaeth i'r rhai gyda'r angen mwyaf brys.

Ar gyfer y rhai sy'n dymuno prynu eu cartrefi eu hunain, rydym yn cynnig y modd i ddod yn berchnogion am lai o gost trwy 'Cartrefi o fewn Cyrraedd'. Cynllun yw hwn wedi ei lunio i helpu'r bobl hynny na fyddai modd arall iddynt brynu tai digonol ar gyfer eu hanghenion ar y farchnad agored.

2.3 Tyfu gyda phobl

Mae **Living +** yn darparu tai i bobl 55 oed a rhagor. Mae'n wasanaeth sy'n arbenigo mewn diwallu anghenion y ffordd o fyw sydd gan y garfan hon o gwsmeriaid ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau fel y mae anghenion pobl yn newid.

2.4 Cynnig Rhagoriaeth mewn Tai a Gwasanaethau Cymorth

Rydym yn gweithio gyda darparwyr cymorth eraill i ddarparu cartrefi ar gyfer pobl gydag amrywiaeth o anghenion ychwanegol am gymorth, yn cynnwys pobl gydag anawsterau dysgu, unigolion o bob oed sy'n ddigartref, pobl ifanc sy'n ymadael â gofal, merched sy'n ffoi oddi wrth gam-drin domestig a phobl gyda phroblemau iechyd y meddwl.

Rydym hefyd yn rheoli cartrefi yn uniongyrchol ar gyfer grŵp cymysg o gleientiaid yn ein prosiectau PREP ac yn ein hostel, Tŷ'r Dderwen.

2.5 Buddsoddi mewn cartrefi a chymunedau

Rydym yn buddsoddi yng nghymunedau lleol ein preswylwyr i gyd trwy ein tîm datblygu cymunedol ac rydym yn gweithredu mewn modd rhagweithiol i reoli materion ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'n gweithwyr arbenigol. Rydym yn buddsoddi yng nghartrefi ein preswylwyr gyda rhaglen gynnal a chadw wedi ei chynllunio a gwasanaeth atgyweirio o'r radd flaenaf sy'n ymateb.

Mae ein tenantiaid yn cael eu gwobrwyo am dalu eu rhenti yn brydlon trwy ein Cynllun Teyrngarwch 5*, ac mae ein hymgyngorydd arbenigol yn helpu tenantiaid i fynd am y budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael.

Rydym yn helpu ein partneriaid ymysg yr awdurdodau lleol i gyflawni eu nodau trwy gymryd rhan mewn prosiectau adfywio.

2.6 Partneriaeth

Rydym yn aelod o *Integrate*, consortiwm o gymdeithasau tai o feddwl tebyg yn Ne Cymru sydd wedi dod at ei gilydd i gynnig y gwerth gorau o ran caffael a chyflwyno gwasanaethau. Er bod y sefydliadau yn cadw eu hannibyniaeth, mae aelodau *Integrate* yn cronni eu sgiliau a'u profiad ac yn elwa ar y grym i brynu sydd ganddynt ar y cyd er mwyn cael gwerth gwell.


2.7 Pobl

Mae *United Welsh* yn un o'r cymdeithasau tai mwyaf llwyddiannus yn eu gwaith ac rydym yn gwybod ein bod yn cyflawni hyn trwy ddenu a chadw pobl sydd ar y brig yn eu gwaith. Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi fod gennym bobl broffesiynol gyda'r sgiliau gorau ac wedi eu hyfforddi'n dda. Mae hyn yn ffactor hanfodol i'n llwyddiant yn y dyfodol ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithwyr yn derbyn cymorth heb ei ail yn mhob agwedd ar eu bywyd gwaith.

2.8 Yr Ardal rydym yn Gweithredu ynddi

Mae *United Welsh* yn gweithio yn ardaloedd 11 o wahanol awdurdodau lleol yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith yn ardaloedd Caerffili, Caerdydd a Blaenau Gwent. Mae'r cartrefi hyn yn gartref i lawer o gymunedau gwahanol gyda gofynion gwahanol o ran tai ac amgylchiadau economaidd amrywiol.

Mae gennym ddwy swyddfa yng Nghaerdydd a Chaerffili. Hefyd, rydym yn rheoli nifer o gynlluniau tai â chymorth yng Nghaerdydd a thai ar gyfer pobl 55 oed a rhagor yng Nghaerdydd, Caerffili, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.



2.9 Gwybodaeth am yr Iaith Gymraeg

Siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd yr awdurdodau lleol y mae *United Welsh* yn gweithio ynddynt:

- Pen-y-bont ar Ogwr 11% / RhCT 13% / Bro Morg 11% / Caerffili 11% / Caerdydd 11% / Blaenau Gwent 10% / Sir Fynwy 9%
- Yng Nghaerffili roedd 40% o'r rhai 10-14 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2001

Pob ffigwr yn seiliedig ar Gyfrifiad 2001 ac ar niferoedd / canrannau'r rhai 3 oed neu ragor sy'n gallu siarad Cymraeg

Cyfrifiad 2001 sy'n cynnig y darlun mwyaf diweddar o sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Dyma'r sefyllfa yn ardaloedd yr awdurdodau lleol y mae *United Welsh* yn gweithio ynddynt:

Ardal Awdurdod Lleol	% tros 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg	Nifer tros 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg	% y rhai 10 – 14 oed sy'n gallu siarad Cymraeg	% y rhai 50 – 59 oed sy'n gallu siarad Cymraeg
Pen-y-bont ar Ogwr	10.8	13,397	30.5	14.8
Rhondda Cynon Taf	12.5	27,946	34.2	5.3
Bro Morgannwg	11.3	12,994	36.7	5.4
Caerffili	11.2	18,237	39.8	3.5
Caerdydd	11.0	34,606	31.0	6.1
Blaenau Gwent	9.5	6,417	44.1	2.1
Sir Fynwy	9.3	7,688	44.5	3.1
Cyfanswm	---	121,285	---	---

Mae'n amlwg mai plant a phobl ifanc yw'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg a bod y nifer yn llawer iawn llai ymysg pobl hŷn. Gellir disgwyl felly y bydd y galw am wasanaethau yn Gymraeg yn cynyddu gydag amser.

2.10 Strwythur

Mae *United Welsh* yn 'ddielw' ac wedi ei chofrestru gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru (ein rheolydd) a Chofrestr y Cymdeithasau Cyfeillgar yn unol â'r Rheolau Elusennol.

Mae'r Aelodau sy'n Gyfranddalwyr yn ethol Bwrdd i oruchwylio'r modd y rheolir y Sefydliad. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am strategaeth a fframwaith polisi'r Gyndeithas.

Mae'r cyfrifoldeb tros reoli *United Welsh* o ddydd i ddydd a gweithredu'r fframwaith polisi wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr y mae ganddo/ganddi Dîm Rheoli Uwch i gynorthwyo. Mae pob aelod o'r Tîm Rheoli Uwch yn Gyfarwyddwr gweithredol gyda thimau o weithwyr yn atebol iddo/iddi.

Yn bennaf, mae'r Bwrdd yn grŵp o Aelodau sy'n Gyfranddalwyr, wedi eu hethol gan yr Aelodau eraill sy'n Gyfranddalwyr, er mwyn cyfarwyddo busnes y Gymdeithas. Gan y bwrdd mae'r cyfrifoldeb terfynol am lywodraethu *United Welsh*.

3.1 Polisiau a Mentrau

3.1.1 Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, neu wrth newid polisiau, bydd *United Welsh* yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn a bydd yn sicrhau hefyd y gweithredir y camau yn y Cynllun wrth weithredu polisiau a mentrau newydd.

3.1.2 Bydd *United Welsh* yn ymgynghori o flaen llaw gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn ag unrhyw gynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei newid heb gael cytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gyntaf.

3.1.3 Byddwn yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymwneud â llunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau *United Welsh* o dan y Cod Rheoleiddio a Deddf Iaith Gymraeg 1993.

3.1.4 Mae Cymdeithasau Tai yn gallu cyfrannu at ddatblygu'r iaith Gymraeg yn lleol neu mewn cymuned a'n nod fydd sicrhau y bydd polisiau a mentrau newydd *United Welsh* yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n briodol.

3.2 Darparu Gwasanaethau

3.2.1 Byddwn yn sicrhau bod cymaint o'n gwasanaethau ag y bo modd ar gael yn Gymraeg a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pryd y maent ar gael.

3.2.2 Bydd *United Welsh* yn gweithredu'r ymrwymadau sydd wedi eu nodi yn y cynllun trwy roi'r trefniadau canlynol ar waith:

- trefnu'r tîm gwasanaeth fe bod modd i weithwyr sy'n siarad Cymraeg ddelio gyda'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg
- galluogi swyddogion sy'n gallu siarad Cymraeg o un swyddfa i roi cymorth i swyddfa arall pan fydd angen
- mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn yr iaith y mae'r sawl sy'n derbyn y gwasanaeth yn ei dewis
- hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ymysg gweithwyr *United Welsh*
- ystyried yr angen i fwy o sgiliau iaith Gymraeg fod ar gael trwy hyfforddi a recriwtio

3.3 Gwasanaethau y mae sefydliadau eraill yn eu cynnig i'r cyhoedd

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

3.3.1 Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

Partneriaethau

3.3.2 Mae *United Welsh* yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus, sefydliadau yn y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Rydym yn gweithredu ar lawer o lefelau wrth weithio gydag eraill:

- pan fydd *United Welsh* yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith
- pan fydd *United Welsh* yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith

3.4 Safonau Ansawdd

3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gyfartal o ran ansawdd ac ar gael gyda'r un amserlen lle bo hynny'n rhesymol o ymarferol.

4. Ymwneud â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

4.1.1 Mae *United Welsh* yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

4.1.2 Bydd pob gohebiaeth yn Gymraeg yn cael ei thrin yn brydlon.

4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn darparu ateb yn Gymraeg (os bydd angen ateb).

4.1.4 Bydd pob gohebiaeth yn Gymraeg yn dilyn sgwrs ar y ffôn neu wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle cadarnhawyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith y person.

4.1.5 Os bydd rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o unrhyw ohebiaeth, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd ac am yr un pris (os yw hynny'n berthnasol).

4.1.6 Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl hynny sy'n dymuno ymwneud â *United Welsh* yn Gymraeg.

4.1.7 Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebu ac ar gyfer trefnu cyfieithiad.

4.2 Cyfathrebu ar y ffôn

4.2.3 Er mwyn cyflawni'r nod o ymdrin yn gyfartal â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg, byddwn yn dilyn y camau canlynol a fydd yn fodd i siaradwyr Cymraeg ymwneud â *United Welsh* yn Gymraeg ar y ffôn:

- darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt
- darparu canllawiau i'r gweithwyr ynghylch ymateb i alwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

4.3.1 Pan fydd *United Welsh* yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, yn cynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill cyffelyb, bydd croeso i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd amgylchiadau pan y bydd yn briodol ar sail gwybodaeth, cynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig.

4.3.2 Bydd y trefnydd yn asesu a oes angen cyfleusterau cyfieithu. Yn ogystal ag ystyried a yw *United Welsh* wedi ei hysbysu o ddewis iaith y rhai a fydd yn bresennol, bydd ef/hi yn ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy sy'n debygol o fod yn bresennol, a'r pwnc o dan sylw.

4.3.3 Ar sail gofynion y rhai a fydd yn bresennol, gellir darparu deunydd ysgrifenedig fel taflenni neu ddogfennau eraill a ddefnyddir mewn cyfarfodydd cyhoeddus, yn ddwyieithog.

4.3.4 Byddwn yn asesu a oes angen i weithwyr sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd a rhoi sylw i'w hymholiadau. Bydd ein gweithwyr yn amlygu eu medrau ieithyddol mewn cyfarfodydd, er enghraifft, trwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau "Iaith Gwaith" Bwrdd yr Iaith.

4.4 Cyfarfodydd Eraill

4.4.1 Mae *United Welsh* yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond oherwydd prinder y siaradwyr Cymraeg, nid oes modd i ni sicrhau cyfarfod wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn egluro'r sefyllfa yn gwrtais ac yn cynnig dewisiadau eraill, fel trefnu cyfieithiad neu barhau gyda'r cyfarfod yn Saesneg.

4.4.2 Os yw'n amlwg bod galw cyson am gyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a'n bod yn methu â bodloni'r galw, byddwn yn ystyried dilyn camau fel hyfforddi neu benodi gweithwyr dwyieithog.

4.4.3 Byddwn yn ceisio darparu rhagor o wasanaethau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn ystod oes y Cynllun hwn os bydd eu hangen er mwyn diwallu'r galw ac anghenion ein cwsmeriaid.

4.5 Dulliau eraill o gyfathrebu gyda'r cyhoedd

4.5.1 Byddwn yn ystyried y dulliau gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha fodd bynnag yr ydym yn ymwneud â'r cyhoedd.

5. Gwedd Gyhoeddus *United Welsh*

5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

5.1.1 Mae *United Welsh* wedi ymrwymo i ddatblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a byddwn yn mabwysiadu delwedd gyhoeddus ddwyieithog yn ystod oes y Cynllun hwn.

Ni fydd brand / logo corfforol *United Welsh* yn newid. Mae'r logo ac enw'r sefydliad, sef '*United Welsh*', yn enw brand sefydlog y mae ein cwsmeriaid yn ei adnabod yn rhwydd.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Pan fyddwn yn adnewyddu neu ailgodi unrhyw arwydd, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn hollol ddwyieithog. Bydd arwyddion a godir y tro cyntaf yn hollol ddwyieithog. Bydd enwau safleoedd datblygu sy'n cael eu llunio i ddibenion marchnata yn Gymraeg neu'n Saesneg (nid dwyieithog) a byddant yn adlewyrchu treftadaeth leol yr ardal. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw enwi strydoedd.

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

5.2.3 Arfer safonol y Gymdeithas fydd darparu arwyddion dwyieithog, ond yr adegau y darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran eu ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.3 Cyhoeddi ac Argraffu Defnyddiau

5.3.1 Byddwn yn cynhyrchu ein prif ddogfennau strategol neu'r rhai sydd ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol ar ffurf ddwyieithog.

5.3.2 Pan gyhoeddir dogfen gyda phris, ni fydd pris fersiwn Gymraeg y ddogfen yn fwy na phris y fersiwn Saesneg.

5.3.3 Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

5.3.7 Bydd prif ddogfennau ar gyfer y cyhoedd fel yr Adroddiad Blynyddol ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan.

5.3.8 Byddwn yn sicrhau bod y safon y testun Cymraeg yn ein cyhoeddiadau yn uchel a bod yr ieithwedd yn briodol ar gyfer y gynulleidfa mewn golwg.

5.4 Ffurflenni a deunydd eglurhaol

5.4.1 Byddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog pan yw hynny'n rhesymol o ymarferol a phriodol yn yr amgylchiadau.

5.4.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

5.4.3 Weithiau (efallai oherwydd cymhlethdod ffurflen) ni fydd cynhyrchu fersiwn ddwyieithog yn ymarferol, a gallai fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fod yn fwy priodol. Os felly, dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg:

- gael eu cyhoeddi'r un pryd
- fod yr un mor hawdd eu cael mewn swyddfeydd a chanolfannau dosbarthu eraill
- gael eu dosbarthu gyda'i gilydd, a
- chynnwys neges sy'n cadarnhau bod y ffurflen ar gael hefyd yn yr iaith arall.

5.4.4 Bydd *United Welsh* yn ceisio darganfod dewis iaith tenantiaid newydd trwy gynnwys cwestiwn "dewis iaith" ar y ffurflen gais gyntaf am dy. Unwaith y bydd dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, byddwn yn dosbarthu deunydd yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog o hynny ymlaen, fel y bo'n briodol.

5.4.5 Byddwn yn sicrhau bod cysondeb gyda themau yn arfer rheolaidd wrth baratoi ffurflenni.

5.5 Datganiadau i'r Wasg

5.5.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan flaenllaw o wedd gyhoeddus *United Welsh* a byddwn felly yn eu cyhoeddi yn ddwyieithog pan fyddwn yn anelu at y cyfryngau Cymreig yn benodol.

5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd

5.6.1 Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

5.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Gweithwyr

5.7.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan yw hynny'n briodol yn yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran eu ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.7.2 Bydd ein hysbysebion ar gyfer recriwtio gweithwyr yn ddwyieithog ar gyfer swyddi lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol i'r swyddogaeth.

5.7.3 Bydd pecynnau gwybodaeth, fel disgrifiadau swydd a manylebau personol yn cael eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob swydd lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol.

5.7.4 Os byddwn yn hysbysebu yn y wasg Gymraeg, bydd ein hysbysebion yn y cyhoeddiadau hynny yn Gymraeg yn unig.

6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

6.1 Staffio

6.1.1 Bydd *United Welsh* yn gwneud trefniadau er mwyn sicrhau, cyn belled ac y mae modd rhesymol gwneud hynny, bod gweithwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg priodol ar gael i'r gweithleoedd hynny sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd er mwyn i'r gweithleoedd hynny fedru cynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd y graddau y mae hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio, yn dibynnu ar y gwasanaeth ac ar yr ardal.

6.1.2 Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau trwy gyfrwng ein recriwtio a'n hyfforddi.

6.1.3 Byddwn yn gosod gofynion iaith Gymraeg (dymunol neu angenrheidiol) ar rai swyddi, trwy ystyried y ffactorau canlynol:

- Faint o gysylltiad fydd gyda'r cyhoedd a pha mor aml
- Faint o fodd sydd ar hyn o bryd gan yr Uned neu'r Swyddfa i gynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg
- Arbenigedd y swydd, sef y gallai sgiliau yn yr iaith Gymraeg fod yn hanfodol bwysig mewn rhai meysydd penodol
- Os yw'n swydd mewn ardal benodol, yna byddai asesiad o nifer/canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

6.1.4 Wrth asesu ein hanghenion o ran gweithwyr, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg wrth weithredu cynlluniau ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig o wasanaeth yn Gymraeg.

6.1.6 Byddwn yn cynyddu'r adnoddau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Iaith mewn modd tringar trwy annog a chefnogi pob gweithiwr i gymryd rhan. Byddwn yn datblygu sgiliau yn yr iaith yn ogystal ag agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Ni ddylai gweithwyr heb yr iaith Gymraeg deimlo bod unrhyw fygythiad iddynt, ac ni ddylai unrhyw rwystr rhag ei harfer fod i'r rhai sy'n dymuno dysgu'r iaith Gymraeg. Byddwn yn ymdrin â sgiliau iaith mewn modd tebyg i unrhyw sgiliau eraill y mae angen eu datblygu yn y gweithle.

6.2 Recriwtio

6.2.1 Pan yw'n ddymunol neu'n hanfodol bod gan ymgeisydd sgiliau yn yr iaith Gymraeg, bydd hyn wedi ei nodi'n glir yn adran gymwysterau'r swydd. Byddwn yn nodi hefyd faint o allu yn y Gymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd, er enghraifft "rhugl yn y Gymraeg".

6.3 Hyfforddiant yn yr Iaith Gymraeg

6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn trwy roi anogaeth a chymorth i weithwyr ddysgu'r Gymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg.

6.3.2 Byddwn yn cynllunio ein rhaglen hyfforddi yn ofalus ac yn canolbwyntio'r adnoddau ar y rhannau hynny o'n gwasanaeth lle mae cyfathrebu gyda siaradwyr Cymraeg yn digwydd yn aml, neu lle mae gofynion ieithyddol ar gyfer y swydd.

6.3.3 Mae o fudd i ddysgwyr wybod am gydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a byddwn yn annog gweithwyr i geisio rhoi cymorth i'r rhai sy'n dysgu.

6.3.4 Bydd *United Welsh* yn darparu hefyd hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer gweithwyr ynghylch gofynion y Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath yng nghyfnod sefydlu'r gweithwyr newydd.

6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

6.4.1 Bydd rheolwyr adnoddau dynol a gweithwyr sy'n gyfrifol am hyfforddiant yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol i'r iaith Gymraeg ar gyfer gweithwyr.

6.5 Trefniadau Gweinyddol

6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth Bwrdd *United Welsh* yn gyfan gwbl. Gan y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu mae'r cyfrifoldeb cyffredinol tros weithredu'r Cynllun Iaith. Mae pob un o weithwyr *United Welsh* yn gyfrifol am wybod sut i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.

6.5.2 Bydd y rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

6.6 Adolygu'r Modd y Gweithredir y Cynllun

6.6.1 Y prif swyddog canlynol sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn – Y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

6.6.2 Bydd monitro'r Cynllun hwn yn waith parhaol a strwythuredig. Bydd hyn yn cynnwys monitro'r meysydd canlynol:

- cydymffurfio â'r Cynllun
- ansawdd y gwasanaeth – edrych ar gwynion ac ar reng flaen y gwasanaeth
- rheoli a gweinyddu
- a yw'r sgiliau ieithyddol yn ddigonol – ar sail ymrwymadau 6.1-6.4
- prif-ffrydio

6.6.3 Byddwn yn defnyddio gweithdrefn gwynion safonol *United Welsh* i gofnodi ac ymdrin â chwynion ynglŷn â'r Cynllun hwn a byddwn yn sicrhau y bydd modd monitro cwynion penodol ynglŷn â'r Cynllun.

6.6.4 Bydd y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Rheoli pob blwyddyn a bydd yn anfon copi o'r adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn patrwm wedi ei gytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a bydd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella a geir gan y cyhoedd ynghylch y Cynllun.

6.7 Cyhoeddi Gwybodaeth

6.7.1 Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitor blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.8 Cyhoeddusrwydd

6.8.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n ymwneud â *United Welsh* yn gwybod am y Cynllun hwn, a'r modd y maent yn gallu gwneud eu busnes gyda *United Welsh* yn Gymraeg.

6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun yn dilyn ein trefniadau arferol ar gyfer cyhoeddusrwydd corfforaethol, a byddant yn cynnwys sicrhau y cyhoeddir y Cynllun mewn lle priodol ar ein gwefan.

6.8.3 Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr *United Welsh* yn gyfarwydd â'r camau gweithredu sydd yn y Cynllun er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r camau pob tro y mae hynny'n briodol.

Amserlen ar gyfer Gweithredu

Gweithredu	Swyddog Arweiniol	Dyddiad y Bwriedir Cwblhau
Cynnwys adran yn y rhaglen sefydlu ar gyfer dechreuwyr newydd ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg a'i ofynion	GE	Chwefror 2008
Cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar wefan <i>United Welsh</i>	GE	Mawrth 2008
Pan fydd swyddi newydd ar gyfer Ymgynghorwyr Gwasanaethau Cwsmeriaid ar gael, ystyried a ddylid cynnwys y Gymraeg yn faen prawf dymunol neu hanfodol ar gyfer y swydd	GE ac Adnoddau Dynol	Ebrill 2008
Darganfod cronfa o gyfieithwyr a gwasanaethau cyfieithu	GE	Ebrill 2008
Cyhoeddi rhestr o siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad	GE	Ebrill 2008
Defnyddio amrywiaeth o gyfryngau cyfathrebu, yn cynnwys y cylchlythyr chwarterol i'r tenantiaid a'r wefan, er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i dderbyn gwybodaeth yn Gymraeg	GE	Mai 2008
Cwblhau hyfforddiant gydag Ymgynghorwyr Gwasanaethau Cwsmer ynghylch cyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg – yn cynnwys canllawiau ar gyfer ymdrin â galwadau ffôn yn Gymraeg	GE, LM, KHJ	Ebrill 2008
Cwblhau ymarfer ymgynghori er mwyn darganfod dewisiadau ein cwsmeriaid o ran cyfathrebu	LM	Medi 2008
Gweithredu ymgyrch hybu ymwybyddiaeth yn y sefydliad er mwyn rhoi gwybod i'r gweithwyr am y Cynllun Iaith Gymraeg a'i ofynion	GE	Medi 2008
Ymchwilio i'r angen am hyfforddiant / cyrsiau iaith Gymraeg ymysg prif weithwyr y rheng flaen	GE ac Adnoddau Dynol	Rhagfyr 2008